# Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent



# Adroddiad Craffu Blynyddol 2023-24

| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | Tudalen 2 |
| Craffu ym Mlaenau Gwent | Tudalen 4 |
| Blaenraglenni Gwaith | Tudalen 5 |
| Craffu Blaenau Gwent mewn Ffigyrau 2023/24 | Tudalen 6 |
| Y Pwyllgor Craffu Trosolwg a Pherfformiad Corfforaethol | Tudalen 7-9 |
| Y Pwyllgor Craffu Pobl | Tudalen 10-12 |
| Y Pwyllgor Craffu Lleoedd | Tudalen 13-15 |
| Y Pwyllgor Craffu Partneriaethau | Tudalen 16-18 |
| Pwyllgor Craffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent | Tudalen 19-20 |
| Presenoldeb Aelodau yng Nghyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu | Tudalen 21 |
| Sut y gall y Cyhoedd fod yn rhan o’r Broses Graffu | Tudalen 22 |
| Deddfwriaeth | Tudalen 23–24 |
| Datblygiadau Arfaethedig yn y Dyfodol | Tudalen 25 |
| Gwybodaeth ar gyfer Cysylltu | Tudalen 26 |

## Cyflwyniad

Croeso i Adroddiad Craffu Blynyddol Blaenau Gwent 2023-24 sy'n rhoi trosolwg o'r gwaith a wnaed gan bob Pwyllgor Craffu.

Mae'r holl Aelodau Craffu wedi herio proses benderfynu'r Cyngor a dylanwadu arni'n effeithiol ac wedi ychwanegu gwerth at amrywiaeth eang o weithgarwch, er mwyn cyflawni deilliannau effeithiol i bobl Blaenau Gwent. Amlygir peth o'r gwaith hwn yn yr adrannau canlynol o'r adroddiad hwn.

Yn dilyn newidiadau i'r strwythur democrataidd yn 2022, mae gan Flaenau Gwent bellach bedwar pwyllgor craffu sydd, ar y cyd, yn cefnogi gwaith y Cabinet a'r Cyngor, ac mae'r strwythur newydd yn parhau i alluogi aelodau nad ydynt yn rhan o'r Cabinet i ddylanwadu ar y ffordd y gall polisi lleol a strategol weithio'n fwy effeithiol ar ran y bobl y maent yn eu gwasanaethu a herio'r Cabinet yn effeithiol ar y penderfyniadau y mae'n eu gwneud.

Mae swyddogaeth Graffu'r Cyngor yn cynnwys Aelodau nad ydynt yn rhan o'r Cabinet. Penodir yr Aelodau nad ydynt yn rhan o'r Cabinet i eistedd ar y Pwyllgorau Craffu i gefnogi gwaith y Cabinet a'r Cyngor yn ei gyfanrwydd.

Nid oes gan y Pwyllgorau unrhyw bwerau gwneud penderfyniadau; fodd bynnag, maent yn gweithredu fel rhwystrau a gwrthbwysau ar y pwerau a arferir a'r penderfyniadau a wneir gan y Cabinet.

## Cyflwyniad (parhad)

Mae'r Pwyllgorau Craffu'n galluogi Aelodau nad ydynt yn rhan o'r Cabinet i fod â mwy o lais ym materion y Cyngor trwy:

- Gynorthwyo'r Cabinet i ddatblygu polisi;
- Monitro perfformiad y Cyngor a'i bartneriaid;
- Archwilio effaith penderfyniadau a pholisïau'r Cabinet a'r modd y cânt eu rhoi ar waith;
- Dwyn yr Arweinydd, y Cabinet a'r Tîm Arwain Corfforaethol i gyfrif;
- Gwrando ar farn y cyhoedd a gwneud yn siŵr bod llais y cyhoedd yn cael ei glywed; a hefyd
- Craffu ar y sefydliadau allanol sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer ein trigolion.

Mae craffu'n fwyaf effeithiol pan fo'n canolbwyntio ar nifer gyfyngedig o bynciau a blaenoriaethau yr ymdrinnir yn fanwl â hwy. Wrth ystyried eitemau ar gyfer agendâu, dylai Pwyllgorau Craffu ystyried y gwerth tebygol a'r effaith debygol a geir ar gyfer unrhyw adroddiad neu adolygiad. Bydd angen taro cydbwysedd rhwng hyn a'r amser ac adnoddau y mae eu hangen i gyflawni'r gweithgarwch.

Gall eitemau eraill o ddiddordeb neu er gwybodaeth sy'n ofynnol i wella gwybodaeth a sgiliau Aelodau mewn maes penodol gael eu darparu i'r Aelodau trwy Sesiynau Briffio Aelodau, Sesiynau Briffio Cyfarwyddiaethau a Hyfforddiant a Datblygiad Aelodau.

Trefnir yr holl Gyfarfodydd Craffu fel cyfarfodydd hybrid, h.y. gall Aelodau'r Pwyllgorau a Swyddogion fod yn bresennol yn rhithwir trwy Microsoft Teams neu fynd i'r cyfarfod yn y Swyddfeydd Cyffredinol. Gall aelodau'r cyhoedd hefyd fod yn bresennol yn y cyfarfodydd naill ai'n rhithwir neu drwy fynd yno.

Mae'r holl Gyfarfodydd Democrataidd yn cael eu recordio a'u lanlwytho i wefan Blaenau Gwent.

## Craffu ym Mlaenau Gwent

Pedwar pwyllgor craffu'r Cygnor yw:

- Trosolwg a Pherfformiad Corfforaethol;
- Partneriaethau;
- Pobl; a
- Lleoedd.

Fel a gytunwyd yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor ym mis Mai 2022, mae gan bob pwyllgor craffu 9 Aelod Etholedig.

Mae gan bob pwyllgor craffu gylch gwaith penodol. Mae manylion llawn y meysydd sy'n cael sylw gan bob pwyllgor craffu wedi'u hamlygu'n nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

Mae strwythur agendâu'r pwyllgorau craffu wedi sicrhau bod aelodau'n herio'n fanwl yn ystod pob eitem a drafodir. Cytunodd y Cyngor y byddai nifer yr eitemau ar agenda craffu'n cael ei leihau i uchafswm o ddwy eitem, dan gategorïau 'Cyn Penderfynu' a 'Monitro Perfformiad', a byddai hyn yn sicrhau bod gan yr agendâu ffocws penodol a'u bod yn rhoi cymorth i wneud penderfyniadau mewn modd effeithiol. Mae lleihau nifer yr eitemau ar gyfer craffu wedi sicrhau hefyd nad yw Blaenraglen Waith y Cabinet yn cael ei gorlwytho ag eitemau monitro.

Mae tystion / gwahoddedigion arbenigol wedi cael eu gwahodd ac wedi cyfrannu at gyfarfodydd craffu, gan gynnwys y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA), Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin (YHA) a'r Gwasanaeth Rhannu Adnoddau (GRhA).

Y tu allan i'r pwyllgor craffu ffurfiol, mae aelodau wedi mynychu sesiynau briffio niferus, sydd wedi bod yn addysgiadol ac wedi datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth am bynciau penodol.

Cynhelir cyfarfodydd Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu i drafod ac adolygu gweithgarwch gweithredol Craffu ym Mlaenau Gwent i gyfrannu at welliannau a sicrhau arfer cyson lle y bo'n briodol.

Cynhelir sesiynau briffio cyfarwyddiaethau'n chwarterol gyda Chyfarwyddiaethau unigol hefyd, y gwahoddir pob Aelod iddynt. Mae'r sesiynau hyn â ffocws manwl yn darparu gwybodaeth a manylion am feysydd gwasanaeth i gynyddu diddordeb a brwdfrydedd Aelodau.

# Blaenraglenni Gwaith

Dechreuodd gwaith i ddatblygu'r **Blaenraglenni Gwaith ar gyfer 2023-24** ym mis Mawrth 2023, ac roedd y gwaith yn cynnwys:

- Cwrdd â meysydd gwasanaeth i ystyried pynciau i'w cynnwys ym Mlaenraglenni Gwaith Drafft y Pwyllgorau Craffu, y Cyngor, y Cabinet a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
- Cwrdd â Chadeiryddion ac Is-gadeiryddion i drafod Blaenraglenni Gwaith y Pwyllgorau Craffu.
- Cafodd y Blaenraglenni Gwaith eu cymeradwyo'n ffurfiol gan bob Pwyllgor ym mis Mehefin 2023, yna fe gawsant eu cyfieithu ac fe drefnwyd eu bod ar gael i'r cyhoedd eu gweld ar wefan BG.

A hwythau'n ddogfennau y gellir eu haddasu'n barhaus, cafodd y Blaenraglenni Gwaith eu hadolygu'n rheolaidd gan Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion a swyddogion trwy gydol y flwyddyn mewn cyfarfodydd Rheoli Agendâu a chan holl aelodau'r pwyllgorau ym mhob cyfarfod gan bwyllgor craffu.

Mae'r Blaenraglenni Gwaith ar gael ar wefan Cyngor Blaenau Gwent, ac mae dolenni i Flaenraglenni Gwaith Pwyllgorau Craffu unigol i'w cael yn nhudalennau perthnasol y Pwyllgorau Craffu isod.

# Craffu Blaenau Gwent mewn Ffigyrau 2023/24

**27** o Eitemau Agenda ar gyfer Craffu Cyn Penderfynu

**232** Edrychiad Unigryw ar Gyfarfodydd Pwyllgorau Ar-lein

**59** o Sesiynau Briffio Aelodau wedi cael eu cynnal

**69%** o'r Aelodau wedi mynychu cyfarfodydd Pwyllgorau Craffu

**8** Nifer y tystion / gwahoddedigion arbenigol a gyfrannodd at gyfarfodydd craffu

**Pwyllgor Craffu Lleoedd**
Cyfarfod Pwyllgor Craffu yr Edrychwyd Fwyaf arno ar
**5 Medi 2023.**

**24** Cyfarfod Pwyllgor Craffu Ffurfiol wedi cael eu cynnal

# Y Pwyllgor Craffu Trosolwg a Pherfformiad Corfforaethol

## Trosolwg y Cadeirydd

Mae'r Pwyllgor Craffu Trosolwg a Pherfformiad Corfforaethol wedi cael blwyddyn brysur! Bu 10 cyfarfod gyda 31 o eitemau i'r pwyllgor graffu arnynt. Mae'r eitemau hyn wedi bod yn amrywiol ac maent yn cynnwys adroddiadau cynhwysfawr ar sefyllfa ariannol y Cyngor, yn ogystal ag adroddiadau ar bolisïau a chynlluniau (i enwi dim ond ychydig).

Hefyd, cynhaliwyd nifer o sesiynau briffio aelodau i hybu gwybodaeth a gwella sgiliau.

Rwy'n bles iawn gyda lefel yr ymrwymiad a ddangoswyd gan holl aelodau'r pwyllgor, o ran presenoldeb a lefel yr ymgysylltu. Mae'r pwyllgor wedi gofyn cwestiynau treiddgar a heriol ac wedi cymryd rhan mewn trafodaethau adeiladol am nifer o'r eitemau a gyflwynwyd. Mae aelodau'r Pwyllgor yn dal i ddefnyddio dalenni gweithredu i sicrhau yr ymdrinnir â'r holl bwyntiau gweithredu yn y cyfarfod nesaf.

Mae safon adroddiadau wedi bod yn rhagorol, a rhaid i mi hefyd gydnabod gwaith swyddogion i baratoi a chyflwyno'r rhain.

Rhaid diolch yn arbennig i'r Is-gadeirydd – Y Cyngh. J Thomas – am ei chefnogaeth werthfawr trwy gydol y flwyddyn.



***Y Cyngh. Joanna Wilkins***
***Cadeirydd, Y Pwyllgor Craffu Trosolwg a Pherfformiad Corfforaethol***

## Presenoldeb Aelodau yn y Pwyllgor Craffu Trosolwg a Pherfformiad Corfforaethol

**Cadeirydd:**
Y Cynghorydd Joanna Wilkins (Wedi mynychu 10 o 10 cyfarfod)

**Is-gadeirydd:**
Y Cynghorydd Jacqueline Thomas (Wedi mynychu 10 o 10 cyfarfod)

Y Cynghorydd Carl Bainton (Mehefin-Hydref 2023) (Wedi mynychu 1 o 4 cyfarfod)

Y Cynghorydd John Hill (Wedi mynychu 10 o 10 cyfarfod)

Y Cynghorydd Julie Holt (Wedi mynychu 10 o 10 cyfarfod)

Y Cynghorydd Ellen Jones (Wedi mynychu 8 o 10 cyfarfod)

Y Cynghorydd Ross Leadbeater (Wedi mynychu 10 o 10 cyfarfod)

Y Cynghorydd Chris Smith (Wedi mynychu 10 o 10 cyfarfod)

Y Cynghorydd Tommy Smith (Wedi mynychu 10 o 10 cyfarfod)

### Cylch Gwaith y Pwyllgor:

Y prif feysydd y mae'r **Pwyllgor Craffu Trosolwg a Pherfformiad Corfforaethol** yn gyfrifol amdanynt yw datblygu ac adolygu strategaethau, cynlluniau a pholisïau a monitro perfformiad y Cyngor yn ei gyfanrwydd mewn perthynas â Datblygu Sefydliadol, Cyfathrebu a Marchnata, Cydraddoldebau, Cwsmeriaid a Dinasyddion, Y Gymraeg, a'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Hefyd, mae'r pwyllgor hwn yn monitro rheolaeth ariannol y Cyngor.

## Uchafbwyntiau'r Flaenraglen Waith Craffu

**Pwnc: Y Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad**

**Gweithgarwch**

Cyflwynwyd adroddiad i'r pwyllgor ar 22 Mehefin 2023. Roedd yr adroddiad yn darparu manylion cynnwys Aelodau a'r cyhoedd yn ehangach yn y broses o ddatblygu Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad newydd ar gyfer y Cyngor. Gofynnwyd i'r Pwyllgor gytuno ar weithdy ar y cyd ar gyfer y Pwyllgor Craffu Trosolwg a Pherfformiad Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 18 Gorffennaf 2023 i lunio datblygiad y strategaeth gychwynnol.

**Deilliant**

Yn y gweithdy gofynnwyd i'r aelodau ystyried y dull a'r lefelau ymgysylltu a chyfranogiad i gyfrannu at y strategaeth newydd ac i adolygu'r cynllun datblygu ar gyfer y polisi; ystyried sut y bydd y strategaeth newydd yn ateb y gofynion yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a rhwymedigaethau statudol eraill; ac adolygu datblygiad y strategaeth trwy ymgysylltu â staff, y cyhoedd ac aelodau.
Trafododd yr aelodau ei bod hi'n bwysig bod ganddynt bresenoldeb gweladwy yn ystod gwaith ymgysylltu mewn ymgyngoriadau a phwysigrwydd cynnal y rhain yn y gymuned yn hytrach na disgwyl i'r gymuned ymweld â hybiau. Roedd aelodau'n teimlo bod angen i'r Cyngor fod yn rhagweithiol o ran bwydo'n ôl i'r gymuned, gan roi gwybod iddynt am ganlyniadau ymgysylltu a'r hyn sydd ac nad ydyw yn yr arfaeth a'r rhesymau pam, os na all rhywbeth ddigwydd.

Gofynnodd aelodau am symleiddio dogfennaeth gan ddefnyddio ffeithluniau a chyfathrebiadau hawdd i'w darllen a bod gwersi o ddigwyddiadau blaenorol yn cael eu dysgu.

Cyflwynwyd y strategaeth ddrafft i'r Pwyllgor ym mis Ionawr 2024 ac fe gytunodd y pwyllgor y dylid ymgynghori'n ehangach ar y strategaeth. Wedyn bydd y strategaeth derfynol yn cael ei chyflwyno i'r pwyllgor ym mis Gorffennaf 2024.

## Y Pwyllgor Craffu Trosolwg a Pherfformiad Corfforaethol

Rhoddodd y Pwyllgor Craffu Trosolwg a Pherfformiad Corfforaethol ystyriaeth i nifer o bolisïau, cynlluniau a strategaethau ac adroddiadau lefel-uchel ar berfformiad. Mynychodd aelodau sesiynau Briffio Aelodau hefyd i wella eu sgiliau a'u gwybodaeth. Caiff rhai enghreifftiau o'r rhain eu rhestru isod:

**Polisïau, Cynlluniau a Strategaethau**




- Polisi Diogelwch Tân yn y Gwaith
- Strategaeth Ddigidol
- Strategaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid
- Adolygiad a Chynllun Gweithredu Strategaeth y Gweithlu
- Adolygiad o'r Polisi Recriwtio a Dethol
- Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad
- Adolygiad o'r Strategaeth Gyfalaf
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28
- Adolygiad o Weithio Ystwyth, Polisïau Gweithio Ystwyth a Hyblyg
- Cyflogwr Cyfeillgar i Faethu
- Adolygiad o Gynllun Corfforaethol y Cyngor 2022/27

**Monitro Perfformiad ar Lefel Uchel**



- Monitro'r Gyllideb Refeniw a Chyfalaf
- Perfformiad Absenoldeb Oherwydd Salwch 2022/23
- Asesiad Blynyddol o Berfformiad y Cyngor 2022/23
- Rheoli Trysorlys 2023/24
- Adroddiad Blynyddol y Gymraeg 2022/23
- Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch

**Sesiynau Briffio Aelodau**



- Hyfforddiant Diogelwch Personol/ Trais ac Ymosodedd
- Gweithdy'r Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad
- Strategaeth Ddigidol
- Canlyniadau'r Polisi Gweithio Ystwyth
- Monitro'r Gyllideb Chwarter 1
- Rheoli Trysorlys
- Monitro'r Gyllideb Chwarter 2
- Cyllid Llywodraeth Leol
- Monitro'r Gyllideb Chwarter 3
- Briffio'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Corfforaethol x 2

# Y Pwyllgor Craffu Pobl

## Trosolwg y Cadeirydd

Mae’r Pwyllgor Craffu Pobl wedi parhau â’i waith i graffu a herio ar draws rhaglen waith eang, gydag aelodau’r pwyllgor yn defnyddio sgiliau a phrofiad i gyflwyno argymhellion i’r Cabinet i’w hystyried.

Yn y Gwasanaethau Plant, mae’r Pwyllgor wedi archwilio meysydd hollbwysig fel y Cynnig Gofal Plant, y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, Rhianta Corfforaethol, ac mae gwaith yn parhau mewn perthynas â’r Ddarpariaeth Breswyl i Blant ym Mlaenau Gwent ac mae’r pwyllgor yn dal i fonitro’r gwaith hwn.

Yn y Gwasanaethau Oedolion, mae’r Pwyllgor wedi archwilio rhaglen waith amrywiol gan graffu ar adroddiadau ar feysydd hollbwysig megis Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Ranbarthol (Gwent) 2023-2026, Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2022/23 a diweddariadau Chwarter 1 a 2 Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, a meysydd hollbwysig fel y Gronfa Gofal Integredig a Byw’n Annibynnol.

Yn y Gwasanaeth Addysg, mae’r Pwyllgor wedi craffu ar adroddiadau a chyflwyno argymhellion i’r Cabinet mewn meysydd sy’n cynnwys cludiant rhwng y cartref a’r ysgol, darpariaeth a strategaethau ADY, Addysg a diogelu, y polisi derbyn i ysgolion a’r rhaglen gwella ysgolion. Mae aelodau hefyd yn parhau i fonitro argymhellion gan Estyn ac fe wnaethant ystyried adroddiad diwedd blwyddyn gan y Cyfarwyddwr Addysg Interim.

Cytunodd y Pwyllgor fod y ddwy adran wedi ymateb yn dda i archwiliadau allanol ac wedi datblygu cynlluniau gweithredu cadarn i fynd i’r afael ag unrhyw argymhellion allanol a gafwyd.



***Y Cyngh. Tommy Smith***
***Cadeirydd, Y Pwyllgor Craffu Pobl***

## Presenoldeb Aelodau yn y Pwyllgor Craffu Pobl

**Cadeirydd:**
Y Cynghorydd Tommy Smith (Wedi mynychu **6** o **6** chyfarfod)

**Is-gadeirydd:**
Y Cynghorydd Jen Morgan (Wedi mynychu **4** o **6** chyfarfod)

Y Cynghorydd Carl Bainton (Meh-Tach 2024) (Wedi mynychu **3** o **3** chyfarfod)

Y Cynghorydd Derrick Bevan (Wedi mynychu **6** o **6** chyfarfod)

Y Cynghorydd Jules Gardner (Wedi mynychu **5** o **6** chyfarfod)

Y Cynghorydd George Humphries (Wedi mynychu **5** o **6** chyfarfod)

Y Cynghorydd John P Morgan (Wedi mynychu **4** o **6** chyfarfod)

Y Cynghorydd Godfrey Thomas (Wedi mynychu **5** o **6** chyfarfod)

Y Cynghorydd David Wilkshire (Wedi mynychu **5** o **6** chyfarfod)

### Cylch Gwaith y Pwyllgor:

Y prif feysydd y mae'r **Pwyllgor Craffu Pobl** yn gyfrifol amdanynt yw datblygu ac adolygu strategaethau, cynlluniau a pholisïau a monitro perfformiad y Cyfarwyddiaethau Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelu Corfforaethol.

## Uchafbwyntiau'r Flaenraglen Waith Craffu

| **Pwnc:** Polisi Derbyn ar gyfer Addysg Feithrin a Statudol 2025/26 |
|---|
| **Gweithgarwch** |
| Cyflwynwyd yr adroddiad i'r pwyllgor a gofynnwyd iddynt roi eu barn ynglŷn â'r ddogfennaeth yn barod ar gyfer cylch derbyn 2025/26, cyn ei chyhoeddi ym mis Ebrill 2024. |
| **Deilliant** |
| Rhoddodd y pwyllgor ystyriaeth i'r newidiadau yn y polisi a gofynnodd gwestiynau ynghylch yr adolygiad o gapasiti; y newidiadau mewn perthynas â derbyn ymgeiswyr o awdurdodau cyfagos a hefyd ynghylch dyrannu lleoedd yn Ysgol Sefydledig Brynmawr.<br><br>Yn dilyn trafodaeth, fe wnaeth y pwyllgor gefnogi'r newidiadau i'r polisi ac argymell bod y Cabinet yn cymeradwyo'r polisi.<br><br>Fe wnaeth y Cabinet gytuno ar y polisi diwygiedig yn ei gyfarfod ar 10 Ebrill 2024. |

## Y Pwyllgor Craffu Pobl

Rhoddodd y Pwyllgor Craffu Pobl ystyriaeth i nifer o bolisïau, cynlluniau a strategaethau ac adroddiadau lefel-uchel ar berfformiad. Mynychodd aelodau sesiynau Briffio Aelodau hefyd i wella eu sgiliau a'u gwybodaeth. Caiff rhai enghreifftiau o'r rhain eu rhestru isod:

**Polisïau, Cynlluniau a Strategaethau**




- Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Ranbarthol (Gwent) 2023-2026
- Y Polisi Cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol ac Ôl-16
- Adolygiad o'r Polisi ADY
- Strategaeth Ddigidol Addysg
- Polisi Derbyn i Ysgolion ar gyfer Addysg Feithrin a Statudol

**Monitro Perfformiad ar Lefel Uchel**



- Adrodd ar Berfformiad Diogelu ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol, Addysg a Diogelu Corfforaethol
- Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2022/23
- Y Rhaglen Gwella Ysgolion
- Darpariaeth Breswyl i Blant ym Mlaenau Gwent
- Cynnydd yn Erbyn Argymhellion Estyn
- Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol Chwarter 1 a 2
- Y Cyfarwyddwr Addysg Chwarter 1 a 2
- Canlyniadau Cyfnod Allweddol 4
- Rhaglen Dreigl Arfaethedig Cymunedau Dysgu Cynaliadwy

**Sesiynau Briffio Aelodau**



- Diogelu mewn Addysg
- Briffio'r Gyfarwyddiaeth Addysg x 2
- Gweithredu'n Brin o Streic (ASOS)
- Strategaeth ar gyfer Cyflawni Gostyngiad Diogel yn Niferoedd y Plant sy'n Derbyn Gofal
- Fy Nhîm Cymorth
- Gweithio gyda'r GCA
- Mabwysiadu De Ddwyrain Cymru
- Adolygiad Llywodraeth Cymru o'r Haen Ganol a Data Cyfnod Allweddol 4 2023
- Briffio'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol
- Trawsnewid Addysg
- Presenoldeb, Gwaharddiadau ac Addysg Ddewisol yn y Cartref

# Y Pwyllgor Craffu Lleoedd

## Trosolwg y Cadeirydd

Cyfarfu'r pwyllgor chwe gwaith trwy gydol 2023/24 a darparodd ystyriaeth ac argymhellion ynghylch nifer o adroddiadau, megis darparu ystyriaethau ar gyfer y Cabinet ynghylch:

- Mabwysiadu'r Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd;
- Cynllun Creu Lleoedd ar gyfer Abertyleri;
- Mabwysiadu Polisi Biniau Sbwriel a Baw Cŵn; a hefyd
- Dyletswydd Trais Difrifol.

Mae'r aelodau hefyd wedi mynychu nifer o sesiynau briffio diddorol ac addysgiadol, a oedd yn cwmpasu meysydd o fewn cylch gwaith ehangach.

Mae aelodau wedi bod yn ymgysylltu ac wedi gofyn nifer o gwestiynau treiddgar a heriol i sicrhau dealltwriaeth lawn am yr adroddiadau a gyflwynwyd.

Rydym yn edrych ymlaen at barhau â gwaith y pwyllgor hwn i mewn i 2024/25.

Hoffwn ddiolch i holl aelodau'r pwyllgor am eu presenoldeb a'u mewnbwn adeiladol dros y flwyddyn. Rhaid rhoi cydnabyddiaeth a diolch arbennig i'r Is-gadeirydd, y Cyngh. Leadbeater, am ei gefnogaeth trwy gydol y flwyddyn.



***Y Cyngh. Malcolm Cross***

***Cadeirydd, Y Pwyllgor Craffu Lleoedd.***

## Presenoldeb Aelodau yn y Pwyllgor Craffu Lleoedd

**Cadeirydd:**
Y Cynghorydd Malcolm Cross (Wedi mynychu 6 o 6 chyfarfod)

**Is-gadeirydd:**
Y Cynghorydd Ross Leadbeater (Wedi mynychu 6 o 6 chyfarfod)

Y Cynghorydd Sonia Behr (Wedi mynychu 6 o 6 chyfarfod)

Y Cynghorydd Keith Chaplin (Wedi mynychu 6 o 6 chyfarfod)

Y Cynghorydd Gareth A Davies (Wedi mynychu 5 o 6 chyfarfod)

Y Cynghorydd Jules Gardner (Wedi mynychu 6 o 6 chyfarfod)

Y Cynghorydd Wayne Hodgins (Wedi mynychu 6 o 6 chyfarfod)

Y Cynghorydd Lee Parsons (Wedi mynychu 4 o 6 chyfarfod)

Y Cynghorydd Diane Rowberry (Wedi mynychu 4 o 6 chyfarfod)

### Cylch Gwaith y Pwyllgor:

Y prif feysydd y mae'r **Pwyllgor Craffu Lleoedd** yn gyfrifol amdanynt yw datblygu ac adolygu strategaethau, cynlluniau a pholisïau a monitro perfformiad y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymunedol ac Adfywio, Datgarboneiddio a Newid Hinsawdd, a Diogelwch Cymunedol gan gynnwys teledu cylch cyfyng.

## Uchafbwyntiau'r Flaenraglen Waith Craffu

| **Pwnc:** Adolygiad o'r Strategaeth Rheoli Gwastraff ac Ailgylchu |
|---|
| **Gweithgarwch** |
| Cyflwynwyd Cynllun Creu Lleoedd Abertyleri i'r pwyllgor a gofynnwyd iddynt gefnogi'r Cynllun, ei weledigaeth a'i uchelgeisiau craidd ar gyfer y dyfodol. |
| **Deilliant** |
| Bu'r pwyllgor yn trafod pum cryfder mwyaf y cynllun creu lleoedd a chyfleoedd a allai gynorthwyo'r Cyngor i drawsnewid Tref Abertyleri. Roedd y pwyllgor yn cydnabod y byddai'r cryfderau a'r cyfleoedd hyn yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer adeiladu ffyniant a llesiant cymunedol Abertyleri yn y dyfodol.<br><br>Fe wnaeth y pwyllgor gefnogi ac argymell cymeradwyaeth gan y Cabinet er mwyn gallu cwblhau'r cynllun a chymryd camau tuag at roi'r prosiectau ynddo ar waith.<br><br>Fe wnaeth y Cabinet gymeradwyo Cynllun Creu Lleoedd Abertyleri ar 29 Tachwedd 2023. |

## Y Pwyllgor Craffu Lleoedd

Rhoddodd y Pwyllgor Craffu Lleoedd ystyriaeth i nifer o bolisïau, cynlluniau a strategaethau ac adroddiadau lefel-uchel ar berfformiad. Mynychodd aelodau sesiynau Briffio Aelodau hefyd i wella eu sgiliau a'u gwybodaeth. Caiff rhai enghreifftiau o'r rhain eu rhestru isod:

**Polisïau, Cynlluniau a Strategaethau**




- Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd
- Cynllun Creu Lleoedd Abertyleri
- Polisi Biniau Sbwriel a Baw Cŵn
- Dyletswydd Trais Difrifol

**Monitro Perfformiad ar Lefel Uchel**



- Adroddiad Diwedd Blwyddyn ar Berfformiad y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymunedol ac Adfywio 2022/23
- Newid Hinsawdd, Adroddiad Blynyddol Sero Net 2022/23
- Perfformiad Blynyddol Gwastraff ac Ailgylchu
- Addasiadau ar gyfer Pobl Anabl - Chwarter 2 2022/23
- Perfformiad y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymunedol ac Adfywio – Chwarteri 1 a 2 – 2023/24
- Trosolwg o Sefyllfa Parthau Teledu Cylch Cyfyng Canol Trefi Blaenau Gwent 2023/24

**Sesiynau Briffio Aelodau**



- Gwastraff ac Ailgylchu
- Gwasanaethau Bysiau
- Prosiect Graddfa a Chyflymder
- Teledu Cylch Cyfyng
- Rheoli Cyrchfan
- Tai Calon
- Newid Hinsawdd
- Nifer yr Ymwelwyr â Chanol Trefi
- Gwasanaeth Gorfodi
- Trosolwg o ddiogelwch cymunedol
- Cysylltu Cymunedau
- Gwrthderfysgaeth
- HIVE
- Adolygiad Blynyddol o Fioamrywiaeth
- Diweddariad Cartrefi Hydrogen Homes
- Ansawdd Aer a Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru)
- Polisi Gwaredu
- Trosglwyddo Asedau Cymunedol
- Adnewyddu'r Fflyd Gwastraff ac Ailgylchu
- Adolygiad Blynyddol o'r Prosbectws Ynni
- Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
- Achos Busnes dros Gaffael Safle Masnachol
- Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle (Ebrill 2024)
- Newid Arfaethedig i Reolau Tai Calon
- Trais Difrifol
- Gweithdy Bioamrywiaeth – Argyfwng Natur
- Gweithdy Bioamrywiaeth – Cynllun Adfer Natur Lleol Blaenau Gwent a Thorfaen
- Gweithdy Bioamrywiaeth – Polisi Peillwyr

# Y Pwyllgor Craffu Partneriaethau

Mae'r Pwyllgor wedi ceisio craffu ar y prif feysydd o ran trefniadau goruchwylio a llywodraethu sefydliadau partner fel eu bod yn ddigonol ac yn effeithiol, gan gwmpasu egwyddorion llywodraethu da, sef Atebolrwydd; Arweinyddiaeth; Uniondeb; Stiwardiaeth a Thryloywder.

Roedd y prif Bartneriaid y craffwyd arnynt yn cynnwys:
· Y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol;
· Y Gwasanaeth Rhannu Adnoddau;
· Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin; a'r
· Gwasanaeth Cyflawni Addysg.

Fe wnaed gwaith monitro perfformiad ar Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin, Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru a'r Gwasanaeth Rhannu Adnoddau.

Y tu allan i'r pwyllgor craffu ffurfiol, mae aelodau wedi mynychu sesiynau briffio niferus, sydd wedi bod yn addysgiadol ac wedi datblygu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth am bynciau penodol ymhellach.

Gweithiodd aelodau'r pwyllgor newydd hwn yn dda gyda'i gilydd ac fe wnaethant ddarparu her adeiladol, cynorthwyo'r Cabinet i ddatblygu Polisi yn ogystal â monitro perfformiad Partneriaid.



***Y Cyngh. Wayne Hodgins***

***Cadeirydd, Y Pwyllgor Craffu Partneriaethau.***

## Presenoldeb Aelodau yn y Pwyllgor Craffu Partneriaethau

**Cadeirydd:**
Y Cynghorydd Wayne Hodgins (Wedi mynychu **3** o **3** chyfarfod)

**Is-gadeirydd:**
Y Cynghorydd Derrick Bevan (Wedi mynychu **3** o **3** chyfarfod)

Y Cynghorydd Peter Baldwin (Wedi mynychu **3** o **3** chyfarfod)

Y Cynghorydd David C Davies (Wedi mynychu **3** o **3** chyfarfod)

Y Cynghorydd Malcolm Day (Wedi mynychu **3** o **3** chyfarfod)

Y Cynghorydd Ellen Jones (Wedi mynychu **3** o **3** chyfarfod)

Y Cynghorydd Chris Smith (Wedi mynychu **3** o **3** chyfarfod)

Y Cynghorydd Lisa Winnett (Wedi mynychu **3** o **3** chyfarfod)

Y Cynghorydd Dean Woods (Wedi mynychu **1** o **3** chyfarfod)

### Cylch Gwaith y Pwyllgor:

Y prif feysydd y mae'r **Pwyllgor Craffu Partneriaethau** yn gyfrifol amdanynt yw monitro trefniadau goruchwylio a llywodraethu partneriaid a nodwyd: Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin, y Gwasanaeth Rhannu Adnoddau a'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg. Cafodd y Pwyllgor ddiweddariadau gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol hefyd.

## Uchafbwyntiau'r Flaenraglen Waith Craffu

**Pwnc: Adroddiad Er Budd y Cyhoedd – Canfyddiadau'r Adolygiad Sicrwydd**

**Gweithgarwch**

Rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i'r Adroddiad Er Budd y Cyhoedd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, *'Diffygion yn nhrefniadau llywodraethu a goruchwylio Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent mewn perthynas â'r cwmni y mae'r Cyngor yn berchen arno, Silent Valley Waste Services Limited'.* Roedd y Cyngor yn cytuno â'r adroddiad hwn ac argymhellodd fel a ganlyn: *'Dylai'r Cyngor gomisiynu adolygiad i geisio sicrwydd bod ei drefniadau llywodraethu a goruchwylio mewn perthynas â chwmnïau eraill yr oedd ganddo fuddiant ynddynt yn ddigonol ac yn effeithiol, ac nad oedd y diffygion a adnabuwyd yn yr adroddiad yn fwy cyffredinol.'*

**Deilliant**

Roedd y Cyngor yn cefnogi'r adolygiad ac argymhellodd wrth y Cyngor:

- Bod Swyddog Cyswllt yn cael ei adnabod o fewn y Cyngor i sefydlu cyfarfodydd cyswllt rheolaidd gydag Archifau Gwent ac Amlosgfeydd Gwent erbyn diwedd mis Mawrth 2024
- Bod sesiwn Brifio Aelodau'n cael ei chynnal ar y gweithrediadau a'r gwasanaethau a ddarperir gan Archifau Gwent ac Amlosgfeydd Gwent erbyn diwedd mis Mawrth 2024
- Bod yr holl ddogfennau strategol perthnasol, y cynllun busnes blynyddol a'r cyfrifon ar gyfer Archifau Gwent ac Amlosgfeydd Gwent yn cael eu cynnwys ym Mlaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu Partneriaethau ar gyfer 2024-25, a'r Cyngor lle y bo'n berthnasol.
- Bod y Cylch Gorchwyl yn cael ei ddatblygu'n 'becyn cymorth llywodraethu' i'w ddefnyddio gan swyddogion ar draws y Cyngor i ddarparu sicrwydd yn erbyn cwmnïau presennol a phe bai unrhyw rai newydd yn cael eu sefydlu erbyn diwedd mis Mawrth 2024.

## Y Pwyllgor Craffu Partneriaethau

Rhoddodd y Pwyllgor Craffu Partneriaethau ystyriaeth i nifer o bolisïau, cynlluniau a strategaethau ac adroddiadau lefel-uchel ar berfformiad. Mynychodd aelodau sesiynau Briffio Aelodau hefyd i wella eu sgiliau a'u gwybodaeth. Caiff rhai enghreifftiau o'r rhain eu rhestru isod:

**Monitro Perfformiad ar Lefel Uchel**



- Adolygiad o drefniadau Llywodraethu a goruchwylio cwmnïau y mae gan y Cyngor fuddiant ynddynt
- Y Gwasanaeth Rhannu Adnoddau
- Perfformiad a Monitro Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin
- Ffurflen Flynyddol Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru (WPLS) 2021/22
- Y Bartneriaeth Llesiant Lleol – Y Cynllun Llesiant Lleol
- Ffurflen Flynyddol Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru (WPLS) 2022/23

**Sesiynau Briffio Aelodau**



- Ynni Cynaliadwy Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin
- Archifau Gwent
- Egwyddorion Marmot a Chreu Gwent Fwy Diogel

## Pwyllgor Craffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent

Sefydlwyd Pwyllgor Craffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent ym mis Mawrth 2023, i graffu ar effeithiolrwydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Rhanbarthol.

Swyddogaethau statudol craidd y Pwyllgor yw:

- Adolygu neu graffu ar y penderfyniadau a wnaed, neu gamau gweithredu a gymerwyd gan y Bwrdd;
- Adolygu neu graffu ar drefniadau llywodraethu'r Bwrdd;
- Cyflwyno adroddiadau neu argymhellion i'r Bwrdd ynghylch ei swyddogaethau neu drefniadau llywodraethu;
- Ystyried materion sy'n ymwneud â'r Bwrdd y gall Gweinidogion Cymru eu cyfeirio ato a chyflwyno adroddiadau i Weinidogion Cymru yn unol â hynny; a hefyd
- Cyflawni swyddogaethau eraill mewn perthynas â'r Bwrdd a osodwyd arno gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Yn ychwanegol at y swyddogaethau hyn gall y Pwyllgor hefyd ystyried y canlynol:

- Effeithiolrwydd yr Asesiad Llesiant;
- Effeithiolrwydd y Cynllun Llesiant;
- Effeithiolrwydd trefniadau mesur perfformiad;
- Lefel yr ymrwymiad gan bartneriaid unigol i waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus;
- Effeithiolrwydd y modd y mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cyfleu ei waith, ei amcanion a'i ddeilliannau i'w randdeiliaid; ac
- Effeithiolrwydd y modd y mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ymdrin â mater cyllid cyfunol i ymdrin â blaenoriaethau.

I'w alluogi i gyflawni ei swyddogaeth graffu bydd y Pwyllgor Craffu'n cael tystiolaeth ar ffurf:

- Asesiad o lesiant lleol;
- Adroddiadau blynyddol; ac
- Adroddiadau ar brosiectau ar y cyd a gyfarwyddwyd gan y *Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Rhanbarthol.*

Dylai'r Pwyllgor gydnabod nad yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ond yn caniatáu craffu ar 'gorff corfforedig' y BGC, ac nid yr aelodau unigol. Mae'r ddeddfwriaeth yn datgan fel a ganlyn:

*"Gall y pwyllgor ei gwneud yn ofynnol i unrhyw aelod o'r bwrdd roi tystiolaeth, ond dim ond mewn perthynas ag arfer swyddogaethau ar y cyd a roddwyd iddynt fel aelod o'r bwrdd dan y Ddeddf hon."*

## Pwyllgor Craffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent

Mae aelodaeth y pwyllgor yn cynnwys nifer cyfartal o aelodau etholedig o ardal pob awdurdod lleol, heb gynnwys Aelodau Cabinet a hefyd aelodau ychwanegol enwebedig o sefydliadau partner:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent – 2 Aelod Etholedig
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili – 2 Aelod Etholedig
- Cyngor Sir Fynwy – 2 Aelod Etholedig
- Cyngor Dinas Casnewydd – 2 Aelod Etholedig
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen – 2 Aelod Etholedig
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan – 1 Aelod Etholedig
- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent – 1 Cynrychiolydd
- Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru – 2 Aelod Etholedig
- Cyfoeth Naturiol Cymru i gael eu cynnwys ond dim cynrychiolydd ar y Cydbwyllgor Craffu

Cynhaliwyd gweithdy ym mis Mawrth 2023, pan gytunodd y pwyllgor ar y canlynol:

- Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd
- Cworwm
- Pleidleisio
- Amser a’r Diwrnod a Ffefrir ar gyfer Cyfarfodydd yn y Dyfodol
- Trefniadau Rhag-gyfarfodydd
- Cylch Cyfarfodydd

Ers mis Mawrth 2023, mae’r pwyllgor wedi cwrdd bedair gwaith ac mae wedi ystyried eitemau sy’n cynnwys:

- Cynllun Llesiant Gwent 2023-2028
- Cylch Gorchwyl y Pwyllgor
- Fframwaith Rheoli Perfformiad Drafft Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent
- Creu Gwent Decach: Gwella Tegwch Iechyd a’r Penderfynyddion Cymdeithasol
- Datblygu Cynllun Cyflawni Cynllun Llesiant Gwent 2023-28

Bwriedir cynnal cyfarfod cyntaf cylch 2024/25 yn ystod mis Medi 2024, i ystyried:

- Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent
- Fframwaith Cyflawni ar gyfer Rhanbarth Marmot Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent

| Presenoldeb Aelodau mewn Pwyllgorau Craffu | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Niferoedd yr Aelodau y Cytunwyd Arnynt ar gyfer Pwyllgorau | Nifer y Cyfarfodydd a gynhaliwyd **Mehefin 23 – Ebr 24** | Cyfanswm yr Aelodau i Fynychu **Mehefin 23 – Ebr 24** | Presenoldeb Gwirioneddol **Mehefin 23 – Ebr 24** | % Presenoldeb **Mehefin 23 – Ebr 24** | % Presenoldeb Medi 22 – Ebr 23 | Nifer y Cyfarfodydd a Gynhaliwyd Medi 22 – Ebr 23 |
| Trosolwg a Pherfformiad Corfforaethol | 9 | 10 | 90 | 79 | 88 | 92 | 9 |
| Pobl | 8 | 6 | 54 | 43 | 80 | 83 | 6 |
| Lleoedd | 9 | 6 | 54 | 49 | 90 | 82 | 5 |
| Partneriaethau | 9 | 3 | 27 | 25 | 92 | 86 | 4 |
| | | | | | | | |
| **Cyfanswm ar y Cyfan** | **36** | **25** | **225** | 156 | **69** | **87** | **24** |

## Sut y gall y cyhoedd fod yn rhan o'r Broses Graffu

Mae croeso i aelodau'r cyhoedd fod yn bresennol yn unrhyw gyfarfod Pwyllgor i arsylwi ar y trafodion (oni bai bod eitem esempt). Cyhoeddir agendâu a phapurau pwyllgorau wythnos cyn y cyfarfod, ar wefan y Cyngor. Ar hyn o bryd cynigir cynnal cyfarfodydd Craffu ar sail hybrid gyda rhai aelodau mewn ystafell gyfarfod yn y Swyddfeydd Cyffredinol a rhai'n bresennol yn rhithwir trwy Microsoft Teams. Mae'r holl gyfarfodydd yn cael eu recordio a'u lanlwytho i wefan y Cyngor, fel arfer erbyn y diwrnod canlynol, i alluogi aelodau'r cyhoedd i weld y cyfarfodydd ar-lein. Serch hynny, pe bai aelod o'r cyhoedd yn gofyn am gael bod yn bresennol yn y Swyddfeydd Cyffredinol neu drwy Microsoft Teams i arsylwi ar gyfarfod, byddai darpariaethau'n cael eu rhoi ar waith i'w gwneud yn bosibl arsylwi ar y cyfarfod pwyllgor.

Mae'r Cyngor wrthi ar hyn o bryd yn paratoi Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad a fydd yn cynnwys ffyrdd y gall aelodau'r cyhoedd ymgysylltu â'r broses ddemocrataidd. Rhai themâu cyffredin a gafwyd gan y cyhoedd yn ystod yr ymgynghoriad oedd:

- Optimeiddio amseriad cyfarfodydd pwyllgorau i sicrhau bod pobl sy'n gweithio'n gallu cyfranogi.
- Darparu rhagor o wybodaeth am y broses benderfynu a phenderfyniadau neu ddeilliannau cyfarfodydd pwyllgorau trwy sianeli cyfathrebu.
- Rhagor o gyfleoedd i bobl ymgysylltu'n uniongyrchol â chynghorwyr, naill ai wyneb yn wyneb neu drwy gyfarfodydd MS Teams neu Zoom ar-lein.
- Annog pobl i gyfranogi mewn democratiaeth leol, gydag 80-90% o'r ymatebwyr eisiau gweld 'rhagor' o gyfleoedd i ddarganfod sut y mae'r Cyngor yn gweithio a mynychu cyfarfodydd Pwyllgorau, eu gwylio, siarad ynddynt neu gyflwyno cwestiynau iddynt.
- Peth diddordeb mewn dysgu mwy am rôl Cynghorydd Bwrdeistref Sirol a sut i ddod yn un yn y dyfodol.
- Bydd gwaith yn cael ei wneud trwy gydol cylch 2024/25 i wreiddio rhai o'r themâu ymgynghori'n fwy effeithiol yn y broses ddemocrataidd.

Mae Agendâu, adroddiadau a chofnodion cyfarfodydd i'w cael ar Wefan y Cyngor: Cynghorwyr a Phwyllgorau | CBS Blaenau Gwent

Gall aelodau'r cyhoedd awgrymu eitemau ar gyfer y Pwyllgorau Craffu naill ai trwy ysgrifennu at y Tîm Democrataidd, trwy anfon neges e-bost ato neu drwy ei ffonio. Ceir gwybodaeth ar Wefan y Cyngor hefyd: CBS Blaenau Gwent: Chwarae Rhan mewn Democratiaeth (blaenau-gwent.gov.uk)

Mae'r holl wybodaeth ar gyfer cysylltu i'w chael ar ddiwedd y ddogfen hon.

## Deddfwriaeth

### Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn cynnwys nifer o ddarpariaethau i hybu amrywiaeth, cynnwys a chyfranogiad yn nhrefniadau democrataidd cynghorau. Mae rhai o'r darpariaethau hyn yn cynnwys:

- Annog pobl leol i gyfranogi mewn prosesau penderfynu;
- Datblygu Strategaeth Cyfranogiad;
- Darlledu cyfarfodydd yn electronig a chynnal cyfarfodydd aml-leoliad;
- Datblygu polisi ar gyfarfodydd aml-leoliad;
- Adolygiad o gynllun deisebau'r Cyngor; a hefyd
- Cyfleoedd i rannu swyddi ar gyfer aelodau'r Cabinet.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (LICD)

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus fynd ar drywydd datblygu cynaliadwy – y broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, gan sicrhau bod ein holl feysydd gwasanaeth yn rhoi ystyriaeth ddyladwy i hynny fel bod y gwasanaethau a ddarperir gennym yn diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn gorff cyhoeddus dynodedig dan Ddeddf LICD, felly mae dyletswydd arno i sicrhau ei fod yn rhoi ystyriaeth ddyladwy i'r ddeddf.

Mae templed adroddiadau corfforaethol y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i swyddogion ystyried sut y mae'r adroddiad yn ategu Deddf LICD.

Fe arweiniodd hyn at ddatblygu proses Asesiad Effaith Integredig newydd sy'n ymgorffori ystyriaethau polisi ehangach y tu hwnt i gydraddoldeb a materion economaidd-gymdeithasol megis:

- Nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol;
- Amcanion Corfforaethol newydd;
- Y lluoedd arfog (dyletswyddau cenedlaethol newydd); ac
- Ystyriaethau i Ddiogelwch Cymunedol.

Mae'r Tîm Polisi'n dal i roi cymorth, cyngor ac arweiniad parhaus i'r rhai sy'n cwblhau'r broses Asesiad Effaith Integredig.

## Asesiad Effaith Integredig

Fel corff cyhoeddus diffiniedig yng Nghymru, rhaid i'r Cyngor gyflawni dyletswydd benodol ar gyfer asesu effaith. Mae hyn yn ymwneud ag effaith debygol unrhyw bolisïau neu arferion newydd neu bresennol (pan gânt eu hadolygu). Ceir ffocws allweddol wrth asesu effaith ar y gallu i gyflawni tair dyletswydd gyffredinol y Cyngor dan y Ddeddf, gan gynnwys asesu unrhyw effaith gadarnhaol neu negyddol ar grwpiau a gwmpesir gan y naw nodwedd warchodedig.

Lle tybiwyd fod effaith negyddol sylweddol (neu debygol) rhaid i'r Cyngor adrodd ar hyn, yn y modd priodol, gan amlinellu unrhyw benderfyniadau a wnaed gydag unrhyw gamau lliniaru a ystyriwyd/a roddwyd ar waith.

Cynhaliwyd adolygiad o'r ffordd y mae'r Cyngor yn cynnal asesiadau o'r effaith yn 2021/22. Roedd hyn yn gyson â disgwyliadau cyfreithiol newydd yn sgîl y Ddeddf, sef y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol.

Cryfhawyd y broses hefyd i sicrhau bod yr holl ffactorau cydraddoldeb ac economaidd-gymdeithasol yn cael eu hystyried yn llawn wrth wneud penderfyniadau, adolygu polisïau presennol neu ddatblygu polisïau newydd. Roedd y gofyniad hwn i gynnal asesiadau effaith ac adrodd arnynt yn dal i fod yn ddisgwyliedig mewn templedi adroddiadau corfforaethol ar gyfer gwneud penderfyniadau.

## Datblygiadau Sydd yn yr Arfaeth ar gyfer y Dyfodol

- Rhoi'r agweddau democrataidd ar y Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad ar waith i gefnogi sut y gall aelodau'r cyhoedd ymgysylltu â'r broses ddemocrataidd.
- Bydd cyfarfodydd y Cyngor llawn yn dechrau cael eu darlledu'n fyw yng nghylch 2024/25.
- Adnabod sut y gall pobl ifanc ymgysylltu'n weithredol â'r broses ddemocrataidd
- Cynnwys Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yng Nghylch Gorchwyl Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu pan fo eitemau ar agendâu'n ymwneud â chadeirio a sgiliau.
- Fel a gytunwyd gan y Cyngor, yn dilyn argymhelliad gan y Pwyllgor Craffu Corfforaethol a Pherfformiad, bydd cynllun peilot yn dechrau i gynnal cyfarfodydd yn hwyrach yn y dydd er mwyn cynyddu cyfranogiad yn y broses.

## Gwybodaeth ar gyfer Cysylltu

Os hoffech gael gwybod mwy am y gwaith yr ydym wedi'i wneud neu sut i ymwneud â gweithgarwch Craffu yn y dyfodol cysylltwch â:

| | | |
|---|---|---|
| **Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, Llywodraethu a Phartneriaethau**<br>Sarah King<br>**Ffôn:** 07870 402616<br>**E-bost:** Sarah.king@blaenau-gwent.gov.uk | **Rheolwr Gwasanaeth Perfformiad a Democrataidd (Dirprwy Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd)**<br>Gemma Wasley<br>**Ffôn:** 07977158983<br>**E-bost:** Gemma.wasley@blaenau-gwent.gov.uk | **Swyddog Craffu a Democrataidd (Ymgynghorydd Pwyllgorau)**<br>Elizabeth Thomas<br>**Ffôn:** (01495) 354795<br>**E-bost:** Liz.thomas@blaenau-gwent.gov.uk |

**Gallwch gysylltu â'ch Cynghorydd lleol** a siarad gyda hwy am Graffu.

Mae manylion cysylltu Cynghorwyr i'w cael ar ein gwefan yn CBS Blaenau Gwent: Cyfeiriadur Cynghorwyr (blaenau-gwent.gov.uk)

**Cyfeiriad:**

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Y Swyddfeydd Cyffredinol
Heol y Gwaith Dur
Tyllwyn
Glyn Ebwy
NP23 6AA

**Gwefan:** CBS Blaenau Gwent: Blaenau Gwent (blaenau-gwent.gov.uk)

**Mae dogfennau ychwanegol a allai fod o ddiddordeb i chi** i'w cael ar ein gwefan.

Cofnodion, Agendâu ac Adroddiadau'r Cyngor

CBS Blaenau Gwent: Cofnodion, Agendâu ac Adroddiadau'r Cyngor (blaenau-gwent.gov.uk)

Cyfansoddiad y Cyngor CBS Blaenau Gwent: Cyfansoddiad y Cyngor

Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Cymraeg

**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Gymraeg.**

**This document is also available in Welsh.**